# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 16 Mawrth 2022

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Lleu Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwylliant@senedd.cymru

**Cofrestru cyn y cyfarfod**

(09.00-09.30)

1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(09.30)

2 **Gwrandawiad cyn penodi Llywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

(09.30-10.15) (Tudalennau 1 - 50)

3 **Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 4, 5, 6 a 9**

(10.15)

4 **Ôl-drafodaeth breifat**

(10.15-10.30)

5 **Trafod y Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer ymchwiliad yn y dyfodol i Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a dull ar gyfer gweithio ar y cyd**

(10.30-10.50) (Tudalennau 51 - 63)

6 **Adroddiadau diweddar ar anghydfodau mewnol yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru**

(10.50-11.00) (Tudalennau 64 - 65)

**Egwyl**

(11.00-11.15)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Cyhoeddus**

## 7 Ymchwiliad i gymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig: Sesiwn dystiolaeth gyda Chwaraeon Cymru

(11.15-12.15) (Tudalennau 66 - 79)

Brian Davies, Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro

Owen Hathway, Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Dirnadaeth, Polisi a Materion Cyhoeddus

Briff ymchwil

Tystiolaeth ysgrifenedig gan Chwaraeon Cymru

## 8 Papurau i'w nodi

(12.15)

**8.1 Llythyr ar y cyd gan Weinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Lywodraeth Cymru 2022-23: Diwylliant, Cyfathrebu a Chwaraeon**

(Tudalennau 80 - 85)

**8.2 Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23: Y Gymraeg**

(Tudalennau 86 - 94)

**8.3 Llythyr gan y Prif Weinidog at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23: Cysylltiadau rhyngwladol**

(Tudalennau 95 - 97)

**8.4 Gohebiaeth gan Dr Caitriona Noonan ynglŷn â chau'r Gronfa Cynnwys Cynulleidfaoedd Ifanc**

(Tudalennau 98 - 100)

## 9 Ôl-drafodaeth breifat

(12.15-12.30)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

## Cymryd rhan mewn Chwaraeon mewn Ardaloedd Difreintiedig

### Briff Chwaraeon Cymru cyn Ymchwiliad Llafar

### 16 Mawrth 2022

sportwales
chwaraeoncymru

Mae Chwaraeon Cymru yn croesawu'r cyfle i ddarparu tystiolaeth yn ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Cysylltiadau Rhyngwladol a Chwaraeon i chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig. Credwn y bydd **dull rhyngsectorol - wedi'i lywio gan ddata**, ynghyd â **mentrau polisi amlsector** yn ymestyn manteision chwaraeon i bawb yng Nghymru.

Y **Weledigaeth** ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru yw'r llwyfan ar gyfer ymgysylltu ar draws sectorau mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol ac mae'n ceisio trawsnewid Cymru'n genedl actif. **Yn bwysig, nid cenhadaeth i ddim ond Chwaraeon Cymru weithio tuag ati yw'r Weledigaeth**. Byddem yn hapus i drafod mwy am y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru gyda'r Pwyllgor.

### 1. Beth yw'r prif rwystrau rhag cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig? Sut mae'r rhain yn cyd-fynd â ffactorau eraill?

Yn fras, gall y prif rwystrau i chwaraeon fod yn rhai strwythurol, sefydliadol, personol neu gymdeithasol – ac ym mhob achos bron, maent yn cynnwys cyfuniad o'r rhain. Mae'r rhwystrau hyn yn effeithio ar bobl o leiafrifoedd ethnig, mudwyr, y rhai ag anableddau, pobl oedrannus, plant, menywod a merched a phobl sy'n amrywiol o ran rhyw, ac yn aml nid yw'r materion hyn wedi'u hynysu ond maent yn rhyngsectorol o ran eu natur. Yn nodweddiadol, mae gan gymunedau mewn ardaloedd difreintiedig gyfradd uwch o'r anghydraddoldebau hyn. Mae rhwystrau strwythurol yn bodoli pan nad yw mynediad yn bodoli, pan mae'n gyfyngedig neu pan nad yw'r amgylchedd chwaraeon yn addas, neu pan na ellir ei addasu i ddiwallu anghenion unigolyn. Mae rhwystrau sefydliadol yn golygu nad yw cyfleoedd i gael mynediad i chwaraeon yn amlwg, a/neu wedi'u tynnu oddi wrth unigolyn oherwydd systemau sydd wedi'u cynllunio'n wael; neu systemau sydd wedi'u cynllunio i fod yn addas ar gyfer rhai defnyddwyr yn unig. Bydd elfennau penderfynu personol a chymdeithasol yn golygu wrth i unigolion ddechrau llywio'r rhwystrau strwythurol a sefydliadol – byddant yn wynebu eu heriau unigryw eu hunain, wedi'u seilio'n benodol ar bwy ydynt.

### 2. Pa mor glir yw'r darlun sydd gennym o'r lefelau cyfranogiad presennol mewn ardaloedd difreintiedig? A yw'r data presennol yn galluogi ymyriadau polisi i fod yn effeithiol?

Rydym yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan fewnwelediad ac felly mae gennym ddarlun clir o lefelau cyfranogiad, rhwystrau a galluogwyr sy'n galluogi pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon. Ein **Harolwg Chwaraeon Ysgol** yw'r hynaf a'r mwyaf y pen o'i fath yn y byd, ac yr ydym yn hynod falch o'r dull arloesol hwn sy'n arwain y byd o ran mynegi llais disgyblion. Yn yr un modd, mae'r data a gasglwn drwy **Arolwg Cenedlaethol Cymru** yn fesur ystadegol cadarn o gymhelliant ac arferion sy'n ymwneud â gweithgarwch corfforol yng Nghymru. Dyma ddwy enghraifft o sut mae mewnwelediad yn gyrru ymyrraeth polisi yr ydym yn dadlau drosto. Mae ein hymateb ysgrifenedig llawn i'r ymchwiliad hwn yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r data hwn. Yn bwysig, rydym hefyd yn gwybod y bydd profiadau byw cymunedau ac unigolion yn amrywio'n fawr ac yn cydnabod pwysigrwydd dod â phrofiadau ansoddol ynghyd gyda data ystadegol.

### 3. Sut y dylid defnyddio arian cyhoeddus i gynyddu cyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig?

Wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb parhaus a rhwystrau i gymryd rhan mewn chwaraeon; rydym yn nodi bod tair elfen allweddol i'w hystyried: **amrywiaeth o ran buddsoddiad, amrywiaeth o ran cyfle**, ac **addewid traws-sector** i drawsnewid Cymru'n genedl actif drwy ymrwymiad gweladwy i'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru.

Nid ydym yn ymddiheuro am y ffordd yr ydym yn **buddsoddi** mewn chwaraeon yng Nghymru ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi newid y ffordd yr ydym yn gwneud hyn. Mae ein dull buddsoddi bellach

yn amrywio yn seiliedig ar bwy a ble rydym yn buddsoddi ond mae bob amser yn gyson o ran un elfen - mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth wraidd y ffordd yr ydym yn defnyddio arian cyhoeddus. Gallwch ddarllen am ein hagwedd tuag at fuddsoddi yma. Mae **amrywiaeth o ran cyfle** yn elfen sylfaenol o sicrhau bod pobl yn meithrin arferion gydol oes i fod yn actif. Mae hyn yn cynnwys cefnogi cyfleoedd i gymryd rhan mewn cynigion aml-chwaraeon yn ifanc a chyflymu cyfleoedd lle caiff chwaraeon ei ddarparu ar y cyd â chyfrwng arall – fel y cyfle i wirfoddoli neu ddefnyddio'r Gymraeg. At hynny, ni ddylai darparu cyfleoedd i bobl fod yn actif fod yn gyfrifoldeb i'r sector chwaraeon yn unig. Dylai **addewid traws-sector** i ystyried chwaraeon a gweithgarwch corfforol ym mhob polisi fod yn ystyriaeth allweddol i lunwyr polisi. Mae ein data'n dweud wrthym na fydd ymyriadau unigol ar eu pen eu hunain yn cael effaith sylweddol ar hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

### 4. Pa mor effeithiol yw'r ymyriadau presennol o ran cynyddu cyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig?

Yn Chwaraeon Cymru, rydym wedi ymrwymo i ddathlu dulliau dysgu a llwyddiannau ein partneriaid ac mae gwaith rhagorol yn cael ei wneud ar hyn o bryd gyda'r sector chwaraeon.  Mae ein hymateb llawn yn arddangos y rhain drwy astudiaethau achos gan ein partneriaid – fel Gemau Stryd a'r Urdd.  At hynny, rydym yn cydnabod y gall gymryd amser i ddysgu am effeithiolrwydd ymyriadau a'u gweithredu, mae ein Harolwg Chwaraeon Ysgol yn hanfodol bwysig o ran deall newid dros amser. Dylid cydnabod hefyd nad yw bob amser yn bosibl rhannu effaith ymyriadau chwaraeon mewn cymdeithas â materion ehangach yn ymwneud ag iechyd, troseddu, addysg, cydlyniant cymunedol a ffactorau eraill sy'n cyfrannu.

### 5. A yw'r pandemig wedi achosi unrhyw newidiadau parhaus i lefelau cyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig?

Ar ddechrau'r pandemig, buom yn gweithio gyda Savanta ComRes i helpu i ddeall i ddechrau yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael, neu yn ei chael, ar lefelau gweithgarwch. Ers hynny, rydym wedi deall bod y pôl hwn yn ychwanegiad defnyddiol at y data lefel poblogaeth rydym yn ei gasglu ar hyn o bryd, ac ar ein gwefan, fe welwch ein bod wedi dadansoddi'r data a gawn drwy hyn yn nodweddion demograffig amrywiol.  Yn 2020—21 fe wnaethom adrodd: roedd oedolion hŷn, y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is a'r rhai â chyflwr neu salwch hirsefydlog yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwneud llai o weithgarwch nag yr oeddent yn ei wneud cyn y pandemig. Mae ein dadansoddiad cyntaf o'r arolwg hwn ar gyfer 2022 yn cael ei ddadansoddi ar adeg ysgrifennu'r ymateb hwn.

### 6. Pa mor effeithiol y mae gwahanol sectorau (e.e. addysg ac iechyd) yn cydweithio i wella cyfranogiad mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig?

Rydym yn cydnabod y bu newid effeithiol yn y blynyddoedd diwethaf mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy gydweithio â sectorau eraill. Mae ein gwaith sy'n gysylltiedig â Phwysau Iach; Cymru Iach a chyda chydweithwyr Addysg wrth dreialu disgyblion sy'n actif y tu hwnt i'r diwrnod ysgol yn ddwy enghraifft o hyn. Fodd bynnag, rydym yn credu y gallai hyn fynd ymhellach. Rydym yn credu y gallai creu cyfle i ystyried chwaraeon o fewn meysydd cyllideb eraill fod yn un dull o gydnabod ei bwysigrwydd a dangos dull traws-sector o ymdrin â hyn.

### 7. A oes enghreifftiau o arfer gorau, yng Nghymru ac yn rhyngwladol, y dylai Cymru ddysgu ohonynt i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig?

Mae pedwar cyfle allweddol lle credwn y gallai Cymru arwain y byd o ran mynd i'r afael â chymhlethdodau yn y maes hwn. Mae llawer o hyn yr ydym eisoes yn ei wneud ac yn ei wneud yn rhannol yn seiliedig ar arfer gorau

rhyngwladol. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae llawer o hyn sy'n cael ei argymell a'i ddarparu yn cael ei wneud gan chwaraeon yn unig. Rydym yn credu y bydd cefnogaeth draws-sector i'r rhain yn drawsnewidiol.

- Mae cefnogi datblygiad **Partneriaethau Chwaraeon** i drawsnewid y ffordd y caiff chwaraeon ei ddarparu ar lefel gymunedol leol – *wedi'i lywio gan ddull Seland Newydd.*
- Cyflymu **Dull Cymru sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn** o ymdrin â chwaraeon pan fyddwn yn siarad am chwaraeon yng Nghymru ar lwyfan y byd – *mae model tebyg wedi'i fabwysiadu yn Norwy.*
- Ymrwymiad i fodelau sy'n hyrwyddo bod yn **Actif y Tu Hwnt i'r Diwrnod Ysgol** ac agor cyfleusterau ysgol ar ôl oriau at ddefnydd y gymuned – *modelau rhyngwladol lluosog*.
- Cefnogaeth i **Chwaraeon ym Mhob Polisi** gan gydnabod hyn mewn cyllidebau traws-sector – *yn debyg i ymrwymiad Iechyd ym Mhob Polisi (Cymru) a'r Marciwr Cyllideb Lles (Seland Newydd).*

Eitem 8.1

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Gweinidog yr Economi**

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a’r Prif Chwip**
**Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, yr Iaith Gymraeg,
Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

1 Mawrth 2022

Annwyl Delyth

**Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23: Diwylliant, Cyfathrebu a Chwaraeon**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 4 Chwefror yn gofyn am ragor o wybodaeth am nifer o faterion a drafodwyd yn ystod ein sesiwn dystiolaeth ddiweddar ar gyllideb ddrafft 2022-23. Mae’r llythyr hwn yn rhoi’r wybodaeth ychwanegol rydych chi wedi gofyn amdani o dan yr un is-benawdau perthnasol.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth ychwanegol hon yn cywiro rhai o’r gwallau yn eich dehongliad o’r dystiolaeth a ddarparwyd. Mae llawer o amser ac ymdrech gan Weinidogion a’n swyddogion yn mynd i’r broses o baratoi tystiolaeth ysgrifenedig ac ymddangos yn y pwyllgor, ac rydym yn siomedig ei bod yn ymddangos bod llawer ohono wedi’i ddiystyru’n llwyr o blaid dull llai strategol a mwy tameidiog o ymdrin â cheisiadau dilynol gan y pwyllgor.

**<u>Cyllid Adferiad Diwylliannol a chefnogaeth i weithwyr llawrydd</u>**

Nodwyd gofynion Cronfa Adferiad Diwylliannol 3 ar gyfer y sector celfyddydau gan Gyngor Celfyddydau Cymru, yn seiliedig ar y ddwy Gronfa Adferiad Diwylliannol flaenorol a’r cyfnod yr amcangyfrifwyd y byddai cyfyngiadau ar waith.

O ran y tair rownd o gyllid drwy’r Gronfa Adferiad Diwylliannol, mae’r gyllideb wedi’i dadansoddi fel a ganlyn:

- Yn CRF1, cawsom swm canlyniadol o £53m, ond darparwyd £10m ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ei hun

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy’n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Yn CRF2, mi wnaethom ddyrannu £30m o swm canlyniadol o £24m, a dyrannwyd £6m ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ei hun
- Darparwyd y gyllideb o £15m ar gyfer CRF3 gan Lywodraeth Cymru

Roedd y £15m a ddyrannwyd i CRF3 yn seiliedig ar y galw o rowndiau blaenorol, lle'r oedd £60m, ar lefel uchel, yn ddigon i gefnogi'r sector ar sail 12 mis o gostau (CRF1). Roedd £30m yn ddigon i gefnogi'r sector ar sail 6 mis o gostau (CRF2), felly cytunom ar becyn o £15m ar sail cyfnod o dri mis (Rhagfyr i Chwefror). Mae'r penderfyniad hwn wedi profi i fod yn gywir gan fod galw wedi bod am oddeutu £11m o'r gronfa, ac nid ydym yn amcangyfrif y bydd angen y £15m llawn arnom pan fyddwn yn cau'r cynllun.

Nid ydym yn bwriadu cynnal rownd arall o'r gronfa i weithwyr llawrydd gan fod y cymorth o £1k oedd ar gael drwy'r gronfa Ddewisol i Awdurdodau Lleol i fod i gefnogi'r gymuned llawrydd yr effeithiwyd arnynt gan y cyfyngiadau Lefel Rhybudd 2. Rydym ni'n parhau i weithio i gyflawni uchelgeisiau'r addewid i weithwyr llawrydd y sector cyhoeddus a ddatblygodd o'r gronfa gweithwyr llawrydd, ac wrth gwrs mewn meysydd fel ffilm a theledu rydym yn parhau i gefnogi'r gymuned llawrydd drwy ein cyllid cynhyrchu arferol.

**Effaith y pasys Covid**

Nid ar chwarae bach y gwnaed y penderfyniad i weithredu'r pàs covid yng Nghymru ac fe'i cyflwynwyd i leihau – nid i ddileu – y risg y byddai pobl sydd wedi'u heintio â'r coronafeirws yn mynd i mewn ac yn lledaenu'r feirws mewn lleoliadau prysur neu leoliadau o dan do lle mae nifer fawr o bobl yn ymgynnull yn agos at ei gilydd am gyfnodau hir.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru ddadansoddiad cyflawn o'r effaith ar gyfer cyflwyno'r pàs covid. Mae'r Asesiad Cryno o'r Effaith ar gael drwy ddilyn y ddolen sydd wedi'i hatodi (https://llyw.cymru/pas-covid-y-gig-asesiad-effaith) ac mae'n cynnwys y canlynol:

- Effaith ar Les;
- Asesiad o'r Effaith Economaidd;
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (os yw'n berthnasol ac nad yw'n cael sylw digonol yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb);
- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Dynol;
- Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg.

Roedd y Pàs Covid yn **rhan bwysig o gyfres o fesurau** i liniaru effaith Covid ar ein cymunedau. Ar 2 Rhagfyr 2021, dywedodd Grŵp Cynghori Technegol Llywodraeth Cymru a'r Prif Gynghorydd Gwyddonol ar Iechyd yn benodol y byddai'n "heriol" i ganfod effaith benodol y cynllun. Dyna pam y mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod effaith y cynllun yn debygol o fod yn anfesuradwy

Am resymau tebyg, nid ydym yn credu y bydd modd nodi union effaith ariannol cyflwyno'r pàs covid yng Nghymru. Er ein bod wedi cael tystiolaeth anecdotaidd o ostyngiad mewn incwm yn y sectorau yr effeithir arnynt, nid oes unrhyw un wedi gallu cynhyrchu tystiolaeth sy'n gallug wahanu ffactorau economaidd eraill oddi wrth effaith y pàs ei hun (fel canfyddiad y cyhoedd o'r risg o fynychu digwyddiadau, yn sgil covid, ymgyrchoedd proffil uchel am ddiogelwch ac ati), nac i gymharu effaith y pàs yn erbyn opsiynau eraill a oedd ar gael i'r Llywodraeth, fel cau lleoliadau risg uchel.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi canfyddiadau astudiaeth ddiweddar a gynhaliwyd gan ymchwilwyr yn Bruegel a Chyngor Dadansoddi Economaidd Ffrainc a oedd yn awgrymu bod pasys covid wedi gwella canlyniadau iechyd cyhoeddus a pherfformiad economaidd yn Ffrainc, yr Almaen a'r Eidal.

**Strategaeth Ddiwylliant**

Mae cyflwyno strategaeth ddiwylliant newydd yn ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithredu. Byddwn yn datblygu strategaeth ddiwylliant sy'n adlewyrchu Cymru a'i holl amrywiaeth, gan sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n strategol tuag at gyflawni chweched piler Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, ac, wrth wneud hynny, yn ymgysylltu'n ddwys ac yn ystyrlon â sectorau'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth. Cytunir ar union flaenoriaethau'r strategaeth drwy ymgynghori'n agos â'n sectorau. Ar yr adeg briodol, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddatblygiad y strategaeth.

Bydd y gofyniad cyllido cyffredinol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r strategaeth ddiwylliant newydd yn cael ei gwblhau fel rhan o'n proses cynllunio busnes sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd. Mae'r cyrff a noddir wedi cael llythyrau cylch gwaith newydd ar gyfer 2021- 2026, sy'n cwmpasu tymor llawn y Llywodraeth; mae'r rhain yn rhoi blaenoriaeth glir i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r strategaeth ddiwylliant.

**Cyllid cyfalaf ar gyfer y Llyfrgell Genedlaethol a'r Amgueddfa Genedlaethol**

Mae'n bwysig bod ein sefydliadau cenedlaethol yn gallu cynnal amgylcheddau diogel a phriodol i'r cyhoedd sy'n ymweld, ac i'n casgliadau cenedlaethol. Bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Bu ein swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r cyrff a noddir gennym mewn perthynas â'u gofynion cyllideb, ac mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i'w dyraniadau cyllideb drafft.

Ar draws y portffolio Diwylliant, gwelsom gynnydd sylweddol yn y gyllideb gyfalaf, ac mae'r rhan fwyaf o hyn wedi'i glustnodi ar gyfer pedwar prosiect cyfalaf diwylliannol mawr, gan gynnwys Amgueddfa Gogledd Cymru, yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol, Theatr Clwyd ac Amgueddfa Bêl-droed Cymru. Mae rhagor o gyllid grant ar gael i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys datgarboneiddio a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Yn 2021/22, roedd y cyllidebau cyfalaf ar gyfer ein cyrff a noddir yn hael o'u cymharu â'r blynyddoedd blaenorol, ac roeddent yn cynnwys dyraniad cyfalaf o £1m ar wahân ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru i gefnogi'r Archif Ddarlledu Genedlaethol.

Croesawyd y setliad aml-flwyddyn, o ganlyniad i Adolygiad o Wariant y DU, ond ni wnaeth fawr ddim i ddadwneud degawd o gyni. Rydym wedi manteisio i'r eithaf ar y dulliau sydd ar gael i ni o fewn ein setliad cyfalaf cyfyngedig, ond o safbwynt arian parod, mae gostyngiad wedi bod yn cyllid cyfalaf cyffredinol ar gyfer Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd ym mhob blwyddyn yn ystod cyfnod o dair blynedd yr Adolygiad o Wariant, a bydd 11 y cant yn is yn 2024-25 nag yn y flwyddyn gyfredol. Er gwaethaf hyn, mae'r setliadau cyfalaf rydyn ni wedi'u cynnig ar gyfer ein cyrff a noddir dros y cyfnod hwn yn uwch ar y cyfan na'r lefelau cyn y pandemig.

Bydd ein swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda'r cyrff a noddir i fynd i'r afael â blaenoriaethau ar gyfer cyllido.

## Gwariant y Gyllideb ar gyfer Chwaraeon

Fel rydych chi'n cydnabod yn eich llythyr, mae adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol; dim ond rhan o'r darlun cyllido yw'r Llinell Wariant Chwaraeon yn y Gyllideb . Mae cydweithio ar draws adrannau a chyllidebau wedi bod yn allweddol, a bydd yn parhau i fod yn allweddol, er mwyn creu newidiadau hirdymor a chynaliadwy o ran cyfranogiad. Mae rhai enghreifftiau gwych o weithio ar draws adrannau yn cynnwys y Gronfa Iach ac Egnïol sy'n cefnogi amrywiaeth o brosiectau arloesol sy'n ceisio cynyddu cyfranogiad.

Yn ogystal â'n hadran, mae'r Adran Iechyd hefyd wedi darparu cyllid fel a ganlyn i Chwaraeon Cymru dros y 3 blynedd diwethaf:

| | |
|---|---|
| 2019/20 | £1.465m |
| 2020/21 | £1.640m |
| 2021/22 | £1.606m |

Rydym hefyd wedi cynnal ein hymrwymiad i helpu i sicrhau bod cyfleusterau chwaraeon mewn cymunedau ledled Cymru yn fodern ac yn hygyrch drwy ddarparu £6.629m o gyllideb cyfalaf i Chwaraeon Cymru, sy'n ategu'r £8m rydym wedi'i fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Ar ben y buddsoddiad hwn, eleni (21/22) rydym wedi ailddyrannu adnoddau ac wedi darparu cymorth cyfalaf ychwanegol o £4.5m. Am y 3 blynedd nesaf, fel y nodwch yn eich llythyr, rydym yn darparu £8.6m yn 22/23 ac £8m am y 2 flynedd ddilynol, sef cynnydd o 22% ar gyfer y flwyddyn nesaf ac 17% ar ôl hynny yn y cyllid cyfalaf craidd ar gyfer eleni (£6.629m) ac nid toriad fel yr awgrymir.

Rydym yn hyderus y bydd Chwaraeon Cymru yn gwario'r dyfarniad cyfalaf ychwanegol o £4.5m yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i fuddsoddi mewn nifer o brosiectau ar draws amrywiaeth o wahanol gampau er mwyn helpu i gyflawni ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu.

Gofynnoch hefyd am y broses o ddwyn ymlaen ar ddiwedd blwyddyn. Mae ein swyddogion yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda Chwaraeon Cymru, gan gynnwys cyfarfodydd monitro chwarterol ffurfiol, ar y mater hwn a llawer o faterion eraill; rydym hefyd yn cwrdd â Chadeirydd a Phrif Weithredwr Chwaraeon Cymru yn rheolaidd i drafod blaenoriaethau polisi a chynnydd yn erbyn cyflawni'r llythyr cylch gwaith a'u cynllun busnes.

## Llythyrau cylch gwaith a chylchoedd cyllido aml-flwyddyn

Rydym yn cytuno'n llwyr ei bod yn bwysig cael setliadau aml-flwyddyn. Y rheswm nad oedd hyn yn bosibl yn y blynyddoedd diwethaf oedd setliad y Gyllideb gyda Llywodraeth y DU. Maen nhw'n bosibl bellach, a dywedom wrthych yn y pwyllgor fod y rhain bellach ar waith, ond byddem yn ailadrodd yma eto er mwyn bod yn gyflawn. Anfonwyd Llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth i bob corff ym mis Rhagfyr ac rydym yn disgwyl cynlluniau drafft cyn bo hir. Rhannwyd cyllidebau dangosol tair blynedd gyda'r cyrff a noddir fel rhan o drafodaethau yn dilyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft ym mis Rhagfyr. Byddwn yn bwrw ymlaen i ddarparu'r rhain mewn llythyr cyllido ffurfiol ar ôl cyhoeddi'r gyllideb derfynol. Mae ein holl Gyrff Hyd Braich wedi cefnogi'r dull hwn o weithredu.

**Sgiliau yn y sector creadigol**

Bydd *Cynllun Gweithredu Sgiliau* y Corff Sgiliau Creadigol yn cael ei lansio ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf ar gyfer y sectorau sgrin, cerddoriaeth a'r cyfryngau digidol yng Nghymru. Bydd hyblygrwydd yn cael ei gynnwys yn y cynllun gweithredu, er mwyn gallu diwallu anghenion y diwydiant wrth i'r rhain esblygu dros amser. Bydd Cymru Greadigol yn gweithio'n agos gydag Addysg Bellach, Addysg Uwch a darpariaeth hyfforddiant arall i sicrhau bod cyrsiau'n cael eu targedu yn ôl anghenion y diwydiant.

Yn dilyn llwyddiant *Cynllun Prentisiaeth Criw Cynhyrchu* yn y sector sgrin, a gefnogwyd gan Cymru Greadigol yng Ngogledd a De Cymru, bydd y *Cynllun Gweithredu Sgiliau* tair blynedd yn ystyried sut y gellid dyblygu cynlluniau prentisiaeth tebyg ar y cyd ar draws sectorau creadigol eraill. Mae gennym darged o 100 o brentisiaid newydd yn y sectorau creadigol erbyn 2026.

Byddwn hefyd yn parhau i gynnig cefnogaeth i brosiectau sy'n mynd i'r afael â phrinder sgiliau ar draws y sectorau creadigol, ar lefel mynediad ac uwchsgilio rolau, yn ogystal ag i sgiliau trosglwyddadwy a hyfforddiant DPP drwy *Gronfa Sgiliau* newydd ar gyfer y *Corff Sgiliau Creadigol* a fydd yn gweithredu blaenoriaethau'r *Cynllun Gweithredu Sgiliau*. Bydd Panel Ymgynghorol newydd y Corff Sgiliau Creadigol yn adolygu'r blaenoriaethau a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu Sgiliau Cymru a'r blaenoriaethau ar gyfer cyllido, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth hyfforddiant yn cael ei thargedu at anghenion y sector, er mwyn sicrhau bod modd llenwi rolau blaenoriaeth.

**Setliad tâl yn y sector cyhoeddus**

Mater i'r cyrff a noddir yw cytuno ar setliad cyflog gydag undebau a staff. Rydym yn disgwyl i'n cyrff hyd braich sicrhau bod setliadau'n rhesymol ac yn fforddiadwy o fewn y dyraniadau cymorth grant y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu. Yn ddiweddar, rydym wedi nodi cynigion cylch cyflog gan nifer o'n cyrff noddedig, a wnaeth ein sicrhau eu bod yn fforddiadwy o fewn y setliadau presennol.

Byddwch yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i un sector cyhoeddus a dull cyson o ymdrin â thâl a phensiynau.

Rydym wedi cynorthwyo cyrff noddedig gyda phwysau cyflog a phensiwn dros y blynyddoedd diwethaf, gan ddarparu symiau unwaith ac am byth i gefnogi'r pryderon penodol hyn.

**Sesiwn craffu ar dreftadaeth**

Byddem yn falch o ddarparu briff technegol ar dreftadaeth. Fodd bynnag, mae treftadaeth yn cwmpasu maes eang iawn, felly byddai'n ddefnyddiol petai'r Pwyllgor yn gallu bod yn fwy penodol ynghylch yr agweddau yr hoffent ganolbwyntio arnynt fel pwyllgor.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth ychwanegol hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

 

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Gweinidog yr Economi

**Dawn Bowden AS/MS**
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a’r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf MA-JMEWL/4270/21

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

4 Mawrth 2022

Annwyl Delyth,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Chwefror yn dilyn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor ar gynlluniau gwariant y Gymraeg yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23. Rwyf wedi nodi isod fanylion pellach ynghylch yr wybodaeth y gofynnwyd amdani, y codwyd rhywfaint ohoni yn ein sesiwn ar 19 Ionawr.

**Yr Economi a'r Gymraeg**

Ariannwyd Rhaglen Arfor gan Lywodraeth Cymru rhwng 2019 a 2021 i dreialu dulliau arloesol o hyrwyddo entrepreneuriaeth, twf busnes a chydnerthedd cymunedol tra'n cefnogi'r Gymraeg. Mae wedi targedu cymorth yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin ac fe'i cyflwynwyd dros gyfnod o ddwy flynedd 2019/20 a 2020/21 gan y 4 awdurdod lleol a oedd yn gweithio ar brosiectau lleol a chydweithredol. Fel rhan o'r rhaglen, neilltuwyd cyllid ar gyfer gwerthusiad o'r rhaglen ddwy flynedd, a gynhaliwyd gan Wavehill Consulting ac a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021. Mae copi o'r gwerthusiad ynghlwm yn Atodiad 1 er gwybodaeth i'r Pwyllgor.

Mae gwaith yn cael ei wneud ar gynigion ar gyfer rhaglen Arfor 2 mewn cydweithrediad â'r Aelod Dynodedig, Cefin Campbell AS fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru. Byddwn yn ystyried profiadau'r rhaglen flaenorol a gwerthusiad ohoni ac sy'n ategu gweithgarwch arall perthnasol sy'n bodoli eisoes neu sydd wedi'i drefnu. Fel rhan o'r gwaith hwn, ystyrir datblygu cyfres briodol o fesurau perfformiad ar gyfer y rhaglen.

Mae gwaith ar y gweill gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd i edrych ar strwythurau presennol a chynllunio'r model gorau posibl ar gyfer datblygu trefniadau sefydliadol tymor hwy lle gall awdurdodau lleol ledled Cymru adeiladu ar waith partneriaeth wrth geisio cyflawni nodau a rennir ac wrth fynd i'r afael â heriau a chyfleoedd a rennir gyda'i gilydd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y prif reswm dros sefydlu Bwrdd Crwn yr Economi a'r Gymraeg oedd trafod yr heriau economaidd ac ieithyddol sy'n wynebu llawer o ardaloedd gwledig yn y Gorllewin o ganlyniad i ymadawiad y DU â’r UE. Estynnwyd y cylch gwaith hwn o ganlyniad i COVID-19 a’r effeithiau posibl y gallai hyn eu cael ar yr economi leol a chryfder y Gymraeg. Mae trafodaethau'r bwrdd crwn wedi bod yn eang gyda'r prif faterion yn ymwneud â heriau allfudo a’r effaith y mae hyn yn ei chael ar gynaliadwyedd hirdymor ein cymunedau gwledig a Chymraeg eu hiaith. Cytunwyd ar restr o bwyntiau gweithredu ar gyfer y grŵp yn y cyfarfod diwethaf ac mae’r rhestr i'w gweld yn Atodiad 2.

Ar hyn o bryd rydym yn ymgynghori ar y Cynllun Tai mewn Cymunedau Cymraeg sydd â chynigion ar gefnogi’r gwaith o sefydlu mentrau cymdeithasol a mentrau cydweithredol dan arweiniad y gymuned. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 22 Chwefror a byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am yr ymyriadau maes o law.

**Addysg Cyfrwng Cymraeg**

**Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

Fel rhan o'n Cytundeb Cydweithio byddwn yn buddsoddi £8m yn ychwanegol erbyn 2024-25 i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Nodir isod gyfanswm y dyraniad cyllideb dros y cyfnod tair blynedd, fel y'i dyrannwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23.

| 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|
| £1.5m | £4.5m | £8.0m |

Yn 2022-23, bydd y Coleg yn derbyn cyfanswm o £1.5m, ar sail y cynlluniau rydym eisoes wedi eu derbyn ar gyfer ehangu darpariaeth addysg bellach a dechrau cefnogaeth addas i adeiladu capasiti ymysg y darparwyr prentisiaethau. Bydd hyd at £0.4m o’r cyfanswm am y flwyddyn yn mynd tuag at brosiectau i gefnogi hyfforddiant cychwynnol i athrawon ac addysg uwch.

Yn ystod y misoedd nesaf, bydd swyddogion yn trafod cynlluniau penodol gyda’r Coleg a’r Ganolfan ar gyfer 2023-24 a 2024-25, er mwyn cyflawni’r nod yn y Cytundeb Cydweithio i ehangu darpariaeth prentisiaethau ac addysg bellach cyfrwng Cymraeg ôl-16 ynghyd â darparu gwersi Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16-25 mlwydd oed. Rydym eisoes wedi derbyn cais gan y Coleg am y cyfnod dan sylw, i ehangu darpariaeth a’r capasiti yn y sector ôl-16.

Pan fydd cynlluniau mwy cadarn yn eu lle, byddaf mewn sefyllfa i rannu’r manylion gyda’r Pwyllgor.

**Y Mudiad Meithrin**

Sefydlwyd y rhaglen Sefydlu a Symud i ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn 2017 drwy gyllid blynyddol ychwanegol o £1m i’r Mudiad Meithrin. Yn ystod 3 blynedd gyntaf y rhaglen cyflawnodd y Mudiad Meithrin ei darged o sefydlu 40 o ddarpariaethau newydd. Mae'r cyllid hwn wedi parhau i dymor y Senedd hon gyda tharged i ehangu'r ddarpariaeth gan 60 o grwpiau newydd dros 5 mlynedd.

Comisiynodd y Mudiad Meithrin ei werthusiad annibynnol ei hun o'r rhaglen Sefydlu a Symud ar ddiwedd y 3 blynedd gyntaf. Mae argymhellion o'r gwerthusiad hwn wedi'u derbyn a'u hystyried. Hefyd, mae fy swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd â’r Mudiad Meithrin i drafod datblygiad y rhaglen ac i edrych ar ei hehangu drwy grwpiau amgen. Yn ogystal â'r model traddodiadol, mae’r Cylch Meithrin wedi'i leoli mewn meithrinfa ddydd cyfrwng Saesneg. Grwpiau eraill a sefydlwyd yw sesiynau Cylch Meithrin a gynigir o fewn meithrinfeydd dydd cyfrwng Saesneg, gyda'r staff yn y lleoliadau hynny'n cael eu cefnogi drwy raglen hyfforddiant trochi iaith Mudiad Meithrin, 'Croesi'r Bont’. Mae'r grwpiau amgen hyn yn cynnig cyfle i sefydlu darpariaeth a chreu galw mewn ardaloedd lle byddai'n fwy heriol sefydlu darpariaeth draddodiadol y Cylch.

Fel y cadarnhawyd yn y Pwyllgor, ac fel y cyhoeddwyd ar 2 Chwefror, mae £191,000 ychwanegol yn cael ei ddyrannu i gefnogi’r Mudiad Meithrin y flwyddyn ariannol hon. Bydd hyn yn cynnwys:

- £50,000 i gefnogi'r Mudiad i ailagor cynifer o Gylchoedd Ti a Fi â phosibl mewn modd diogel yn dilyn cyfyngiadau COVID-19
- £10,000 i hybu'r gwaith a wneir i edrych ar anghenion ADY a'r Gymraeg, 10 mlynedd ar ôl cyhoeddi astudiaeth annibynnol gan sefydliad allanol (MABIS)
- £25,000 i ddyblu nifer y lleoliadau sy'n derbyn pecyn adnoddau amrywiaeth a chynhwysiant "Cylch i Bawb" i gefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o dan y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, un o ymrwymiadau’r Rhaglen Lywodraethu
- £10,000 ar gyfer cynhyrchu cyfres o hysbysebion i recriwtio staff i Gylchoedd Meithrin a'r sector blynyddoedd cynnar / cyfleoedd hyfforddi mewn papurau rhanbarthol ac ym mhob papur bro
- £76,000 i gefnogi Rhaglen Ysgolion Cam wrth Gam, sy'n darparu cyrsiau Gofal Plant drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy ddenu ysgolion newydd i'r cynllun, a galluogi Mudiad Meithrin i gynnig cymorth ariannol i'r ysgolion presennol sy'n cymryd rhan yn y cynllun
- £20,000 i ariannu adnodd penodol i gefnogi Cylchoedd Meithrin i ymateb i adborth gan Estyn mewn meysydd fel y cwricwlwm a throchi

**Cynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg**

Yn unol â chynllun gwaith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-2026, rydym yn paratoi cynllun 10 mlynedd ar gyfer gweithlu y Gymraeg mewn Addysg. Bydd y cynllun yn cyd-fynd â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol a gyflwynwyd yn ddiweddar i'w cymeradwyo a bydd yn cynnwys dadansoddiad o gapasiti presennol y gweithlu yn ogystal ag anghenion o ran capasiti i’r dyfodol, er mwyn ymateb i gynlluniau awdurdodau lleol ar gyfer ehangu addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd y cynllun yn ceisio mynd i'r afael â'r nodau allweddol a ganlyn:

- cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg
- cynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n cefnogi dysgwyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg
- helpu'r gweithlu i feithrin eu sgiliau Cymraeg er mwyn sicrhau y caiff y Gymraeg ei defnyddio ym mhob rhan o'r cwricwlwm
- meithrin gallu arweinwyr ysgolion cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod gan bob arweinydd y sgiliau sydd eu hangen i gynllunio datblygiad y Gymraeg yn strategol mewn diwylliant o ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu

Yng nghyllideb ddrafft 2022-23, dyrannwyd cyllid ychwanegol a gaiff ei fuddsoddi dros y tair blynedd nesaf i weithredu'r cynllun 10 mlynedd sydd i ddod ar gyfer gweithlu y Gymraeg mewn addysg. Yn ogystal â'r £0.8m ar gyfer Iaith Athrawon Yfory, dyrennir £1.845m arall yn 2022-23, cynnydd o £1m o gymharu â 2021-22, gyda chynnydd pellach o £0.5m yn 2023-24 a £2m yn 2024-25. Caiff y cyllid hwn ei flaenoriaethu i gefnogi nodau'r cynllun.

Byddwn hefyd yn parhau i fuddsoddi tua £6.4m i gefnogi dysgu proffesiynol Cymraeg a chyfrwng Cymraeg drwy'r Cynllun Sabothol a'r cyllid a ddyrennir i gonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag anghenion rhanbarthol a lleol. Mae'r dysgu proffesiynol hwn wedi'i dargedu'n bennaf at gefnogi ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau er mwyn addysgu Cymraeg fel rhan o'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Dylai hyn yn ei dro gael effaith ar sgiliau iaith pobl ifanc erbyn iddynt gwblhau eu haddysg.

Rwyf hefyd wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd cyrsiau drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar gael am ddim i ymarferwyr addysg o fis Medi 2022. Bydd y cyrsiau hyn, ynghyd â'r Cynllun Sabothol a darpariaeth consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol, yn sicrhau bod cyrsiau ar gael yn genedlaethol ar bob lefel i alluogi ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg yn barhaus yn unol â'r safonau proffesiynol.

**Cyhoeddiad cyllid ychwanegol - £1 miliwn**

Fel y nodwyd gan y Pwyllgor, ar 18 Ionawr cyhoeddais gyllid o £1m ar gyfer prosiectau i annog defnydd mwy eang o'r Gymraeg. Mae hyn wedi'i gyflawni drwy ail-lunio cyllidebau o fewn Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg.

Cytunwyd ar flaenoriaethau ariannu yn unol â *Cymraeg 2050: Rhaglen Waith 2021-26*. Dewiswyd y prosiectau a flaenoriaethwyd ar y sail eu bod yn cefnogi neu'n gwella'r gweithgareddau a ariannwyd o gyllid craidd y sefydliadau hyn. Yn achos yr Eisteddfod Genedlaethol, mae'r cyllid ychwanegol yn rhoi sefydlogrwydd i'r sefydliad wrth iddo ailadeiladu ar ôl COVID fel y gall barhau i hyrwyddo diwylliant a defnydd o'r iaith, a chomisiynu prosiectau llenyddiaeth a chelf newydd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yn dibynnu ar lwyddiant Eisteddfod Tregaron ac Eisteddfodau dilynol, bydd modd i'r Eisteddfod adeiladu ei chronfeydd wrth gefn eto.

Mae'r prosiectau penodol a ariennir fel rhan o'r £1m yn caniatáu arloesi mewn meysydd newydd yn ogystal â rhoi hwb i brosiectau sy'n bodoli eisoes. Mae'r cyllid yn cynnwys y canlynol:

- £600,000 ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Tregaron, i gefnogi paratoadau'r Eisteddfod Genedlaethol ar gyfer y digwyddiad eleni a chwrdd â'r costau cynyddol sy'n gysylltiedig â chynnal digwyddiad cenedlaethol mawr o ganlyniad i COVID-19;

- £200,000 ar gyfer y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy'n cefnogi tri phrosiect arloesol:
  - cynllun i gefnogi gweithwyr addysg sy'n ymgymryd â'r cwrs hunan-astudio Cymraeg Gwaith
  - adnodd digidol i helpu ceiswyr lloches a ffoaduriaid i ddysgu Cymraeg llafar
  - cyrsiau hunan-astudio byr i ddysgwyr nad oes ganddynt Saesneg fel iaith gyntaf

- £30,000 ar gyfer Cymraeg i Blant i ddiweddaru dyluniad ac argraffu 50,000 o ffolderi mamolaeth a 100,000 o gardiau sgan sy'n hyrwyddo'r rhaglen, a ddosberthir i bob bwrdd iechyd yng Nghymru.

- £100,000 i gefnogi ein gwaith ar y Cynllun Tai mewn Cymunedau Cymraeg ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad ac annog pobl i rannu eu safbwyntiau ar y cynllun arfaethedig a dadansoddi'r ymatebion.

- £100,000 i E-sgol er mwyn i'r prosiect allu cynnal dwy gyfres o sesiynau adolygu pedair wythnos drwy Microsoft Teams ar ôl ysgol ar gyfer amrywiaeth o bynciau TGAU, Safon UG a Safon Uwch hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022.

- £15,000 ar gyfer Rhieni dros Addysg Gymraeg i ddatblygu eu gwefan ymhellach ac i greu fideos fel bod gwybodaeth am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael mewn ieithoedd cymunedol. Bydd hyn yn cefnogi rhieni mewn grwpiau lleiafrifol y mae eu plant yn cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â'r rhai nad ydynt eto wedi ystyried addysg cyfrwng Cymraeg fel opsiwn sydd ar gael iddynt.

- £10,000 ar gyfer hyrwyddo Trosglwyddo Iaith – Partneriaeth Teuluoedd Môn a fydd yn cyfrannu at waith i ddatblygu ap sy'n ceisio cynyddu trosglwyddiad y Gymraeg rhwng cenedlaethau.

- £25,000 i ddatblygu adnoddau i weithio gyda grwpiau o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol i gryfhau ein negeseuon ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg, a chyfleoedd i gael mynediad at addysg Gymraeg a dwyieithog hyd yn oed os nad yw iaith y cartref yn cynnwys y Gymraeg na'r Saesneg.

**Prosiect 2050**

Bydd Dr Brooks yn dechrau ar y gwaith ar y comisiwn yn fuan (sy'n gysylltiedig â gwaith y Cynllun Tai mewn Cymunedau Cymraeg) i ddeall yr effaith economaidd-gymdeithasol ar y Gymraeg a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddatblygiad ei waith a sut y caiff ei ddefnyddio i ddylanwadu ar benderfyniadau polisi ar draws Llywodraeth Cymru.

**Tynnu cynllun Helo Blod Lleol yn ôl**

Mae COVID-19 wedi newid y dirwedd yr ydym yn gweithio ynddi a rhaid i'n gwaith newid i ymateb i hyn. Rwy'n tynnu gwasanaeth Helo Blod Lleol yn ôl oherwydd bod rhaid inni edrych ar ein blaenoriaethau'n ofalus.

Rwyf wedi gwneud hyn, ac rwy'n rhoi'r arian a ddyrannwyd gynt i Helo Blod Lleol i gynyddu'r defnydd o'n hiaith yng ngoleuni argyfwng COVID-19. Yn benodol, rwyf am gynyddu'r defnydd o'n hiaith yn y sector busnes mewn ffordd wahanol, drwy weld pa gyfleoedd y mae'r sector cydweithredol yn eu cynnig inni wneud hynny. Mae gweithio gyda chymunedau i greu mentrau cydweithredol lle gallwn ddefnyddio ein Cymraeg yn rhydd yn ateb sawl agwedd ar *Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg: ymateb y llywodraeth*, a gyhoeddais fis Gorffennaf diwethaf. Bydd gwasanaeth Helo Blod yn dal i weithredu o'n gwasanaeth Busnes Cymru, gan ddarparu gwybodaeth, cyfieithiadau byr a gwasanaeth gwirio testun i fusnesau ac elusennau sydd am gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Fy mwriad wrth wneud hyn yw y bydd *rhagor* o Gymraeg yn cael ei defnyddio drwy *ragor* o bartneriaid cyflenwi yn y dyfodol nag o dan y ffordd flaenorol o weithio.

**Tai a'r iaith**

Ers y pandemig, mae Gweinidogion wedi bod yn gweithio ar draws y llywodraeth i edrych ar y materion niferus sy'n ymwneud â fforddiadwyedd, ail gartrefi a'r Gymraeg. Mae hyn wedi golygu gweithio ar draws gwahanol bortffolios i helpu i greu atebion i'r materion a'r pryderon niferus sy'n gysylltiedig ag ail gartrefi. Yn ganolog i'r gwaith hwn mae cefnogi cynaliadwyedd y Gymraeg ac iaith gymunedol ffyniannus. Rwyf wedi trafod y materion hyn gyda'r holl Weinidogion perthnasol ac rydym i gyd yn gytûn ar gyflawni blaenoriaethau ein Rhaglen Lywodraethu i sicrhau bod gennym atebion ymarferol ar waith fel y gall pobl aros yn eu cymunedau lleol. Rwy'n croesawu'r cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**Cymraeg 2050**

Mae *Cymraeg 2050* yn bolisi ar draws y llywodraeth ac mae pob Gweinidog yn chwarae ei ran yn y gwaith o'i gyflawni ac rwyf bob amser yn chwilio am gyfleoedd i ymgorffori'r strategaeth mewn meysydd polisi newydd a rhai sy'n datblygu. Mae uwch-swyddogion o bob rhan o Lywodraeth Cymru yn rhan o Fwrdd Rhaglen Cymraeg 2050 lle caiff cynnydd yn erbyn targedau Cymraeg 2050 ei drafod a'i fonitro yn ogystal â thrafodaethau ehangach ynghylch cyfleoedd ar gyfer gweithio ar draws y llywodraeth ac arferion da. Mae'r Cynllun Tai mewn Cymunedau Cymraeg a nodir uchod yn enghraifft wych o sut y gall mentrau traws-lywodraeth weithio'n effeithiol. Enghraifft arall yw'r targed o ran creu siaradwyr Cymraeg, sydd wedi'i fabwysiadu gan yr Is-adran Gofal Plant, lle mae cynlluniau'n cyd-fynd â'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

O dan ddau brif darged *Cymraeg 2050* (cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd dyddiol o'r iaith), mae prosiectau amrywiol yn cefnogi prif ddaliadau *Cymraeg 2050*, gyda chymorth data cadarn o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, yr Arolwg Defnydd Iaith, y cyfrifiad, yn ogystal â data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru i olrhain nifer y siaradwyr newydd drwy'r system addysg. Mae penderfyniadau ariannu, fel y nodwyd uchod, yn cefnogi'r tri nod lefel uchaf: creu siaradwyr newydd, cynyddu'r defnydd o iaith, ac ariannu'r seilwaith economaidd-gymdeithasol, corpws a TG, yn ogystal â chefnogi'r rhaglen ddeddfwriaethol.

Yn anochel, rhaid gwneud penderfyniadau anodd i sicrhau fod y gyllideb sydd ar gael yn cael ei gwario yn y ffordd fwyaf effeithiol bosib o ystyried y cyd-destun cyfredol, ond mae'r holl benderfyniadau'n cael eu llywio gan y weledigaeth yn *Cymraeg 2050* fel a welwyd.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth ichi.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

**Atodiad 2**

**Argymhellion / camau gweithredu Bwrdd Crwn yr Economi a'r Gymraeg – Mawrth 2021**

## *1. Yr Economi Sylfaenol*

**Pwynt Gweithredu 1:** Addasu ymyriadau’r rhaglen Arfor yn unol â chanfyddiadau'r gwerthusiad a'u prif ffrydio i raglenni economaidd perthnasol.

**Cam Gweithredu 2:** Sicrhau bod y gwerthusiad o brosiectau a ariennir gan Gronfa Her yr Economi Sylfaenol yn cynnwys ystyried yr effaith ar y Gymraeg.

## *2. Mentrau Cymdeithasol*

**Cam Gweithredu 3:** Creu swyddi newydd yn y gymuned drwy ddatblygu mentrau cymdeithasol newydd yn modelu gwaith Cwmni Bro Ffestiniog a Phartneriaeth Ogwen ac ati.

**Pwynt Gweithredu 4:** Annog sefydliadau Cymraeg yn y gymuned i adleoli i gefnogi canol ein trefi a chyfeirio at gronfa Canol Trefi yn Gyntaf. Eu cefnogi i greu canolfannau lleol a fydd yn:

- Caniatáu i bobl weithio'n nes at eu cartrefi
- Caniatáu i unigolion gydweithio yn eu cymuned leol
- Darparu lle i'r rhai na allant neu nad ydynt am weithio gartref

## *3. Allfudo*

**Cam Gweithredu 5:** Buddsoddi a gwella rhaglenni sy'n gysylltiedig â gwaith wedi'u targedu at bobl ifanc i aros neu ddychwelyd i'r ardal (Llwybro, Mônallu, Apprentis, Llwyddo'n Lleol a phrosiect sy’n debyg i brosiect Propser yn Iwerddon).

**Cam Gweithredu 6:** Gofyn i awdurdodau lleol, lle mae canran y siaradwyr Cymraeg yn fwy na 30%, gyflwyno pecyn cymorth cyn-fyfyrwyr Gyrfa Cymru mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i gadw mewn cysylltiad â chyn-ddisgyblion a'u cefnogi drwy roi gwybod iddynt am gyfleoedd gwaith lleol a llwybrau gyrfa posibl.

## *4. Cyfleoedd Gwaith*

**Cam Gweithredu 7:** Annog pobl ifanc i ddefnyddio'r Cyfrifon Dysgu Personol i astudio cyrsiau hyblyg, rhan-amser o amgylch eu cyfrifoldebau gwaith presennol i ennill y sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol i wneud y mwyaf o'u potensial o ran swyddi ac incwm.

**Pwynt Gweithredu 8:** Creu rhaglen cyflogaeth ieuenctid ar gyfer Cymru wledig mewn cydweithrediad â Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a chyflogwyr lleol i fynd i'r afael â phrinder sgiliau a chreu cynlluniau gweithlu deallus.

**Cam Gweithredu 9:** Yr economi gylchol – creu cyfleoedd gwaith drwy ddefnyddio cynnyrch ac adnoddau lleol, ee mae prosiect peilot prosesu gwlân ym Mlaenau Ffestiniog yn defnyddio gwlân lleol fel cynnyrch inswleiddio a gwrtaith gan greu sylfaen ar gyfer swyddi a busnes lleol.

**Cam Gweithredu 10:** Byddwn yn datblygu prosiect peilot mewn ardal wledig a fydd yn cymell myfyrwyr sydd wedi gadael Cymru i ddychwelyd i helpu i addysgu Cymraeg mewn ysgolion ar gyfer wythnos olaf y tymor ysgol yn y gobaith y byddant yn cael eu denu i fod yn athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn hyrwyddo'r cwrs addysgu MA rhan-amser ar-lein i annog mwy o bobl i ddod yn athrawon sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cam Gweithredu 11:** Cefnogi'r Urdd i greu seilwaith a fydd yn creu 300 o leoliadau prentisiaethau dros dair blynedd.

**5.** ***Prif Ffrydio'r Gymraeg***

**Cam Gweithredu 12:** Byddwn yn prif ffrydio'r Gymraeg i bob rhaglen economi a chyflogadwyedd gan sicrhau bod asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg yn cael eu cynnal cyn i bolisi neu raglen gael ei gweithredu. Bydd disgwyliad y caiff dangosyddion a thargedau perfformiad eu pennu ac y caiff cynnydd ei fonitro'n rheolaidd.

**Pwynt Gweithredu 13:** Cynnal adolygiad o amodau dyfarnu grant safonol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg, er mwyn sicrhau y gall sefydliadau a ariennir gyfrannu at nodau *Cymraeg 2050*.

**Cam Gweithredu 14:** Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Contract Economaidd, byddwn yn cynorthwyo rheolwyr perthynas Llywodraeth Cymru i adlewyrchu'r Gymraeg yn well mewn ymyriadau economaidd.

***6. Caffael***

**Pwynt Gweithredu 15:** Parhau i weithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus perthnasol i nodi'r cyfleoedd i ailgyfeirio arian cyhoeddus yn ôl i'n cymunedau. Deall y llinellau sylfaen presennol a gosod targedau realistig ond heriol i gynyddu pŵer gwario lleol.

***7. Digidol***

**Pwynt Gweithredu 16:** Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol i sicrhau bod ein rhaglenni ariannu digidol presennol yn helpu cymunedau gwledig i gael band eang cyflym.

**Cam Gweithredu 17:** Yn dilyn canfyddiadau'r arolwg o effeithiau COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg eu hiaith, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau bod gan grwpiau cymunedol y sgiliau angenrheidiol i wneud y gorau o'u galluoedd digidol.

***8. Tai***

**Pwynt Gweithredu 18:** Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i adeiladu cartrefi fforddiadwy a gweithio gyda cholegau addysg bellach lleol i sicrhau'r sgiliau lleol angenrheidiol i adeiladu'r eiddo hyn.

**Cam Gweithredu 19:** Byddwn yn ystyried argymhellion adroddiad Dr Simon Brooks, *Ail gartrefi: Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru*. Byddwn yn gweithio gydag

awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i edrych ar y posibiliadau i alluogi cymunedau lleol i brynu eiddo mewn ardaloedd sy’n sensitif yn ieithyddol. Y nod fydd i'r eiddo hyn gael eu rhentu fel llety gwyliau tymor byr gyda'r elw'n cael ei ddefnyddio i ddatblygu tai i'w rhentu neu i gefnogi cymhellion datblygu cymunedol i bobl leol.

## *9. Trafnidiaeth*

**Cam Gweithredu 20:** Gweithredu ymyriadau’r cynnig gwledig penodol yn *Llwybr Newydd*, y strategaeth drafnidiaeth newydd i Gymru.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our Ref MA/FM -/0815/22

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru

8 Mawrth 2022

Annwyl Cadeirydd,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 4 Chwefror yn gofyn am ragor o wybodaeth am Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23 ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol ar ôl i mi fynychu sesiwn y Pwyllgor ar 19 Ionawr.

<u>Tryloywder ar gynlluniau gwariant</u>

Rydym eisoes yn cyhoeddi cryn dipyn o wybodaeth fel rhan o'n Cyllideb Ddrafft. Mae hyn yn cynnwys crynodeb helaeth o dystiolaeth ysgrifenedig pob Gweinidog i bwyllgorau craffu'r Senedd ar ddyraniadau o fewn pob Prif Grŵp Gwariant, yn ogystal â'r prif naratif ar y gyllideb ddrafft, ac am y tro cyntaf eleni, cynllun cyllid seilwaith manwl o dan ein Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru newydd.

Rydym yn cydnabod bod mwy y gallwn ei wneud bob amser i wella tryloywder ar ein cynlluniau ac mae hynny'n faes sydd wedi'i gynnwys yn ein Cynllun Gwella'r Gyllideb sy'n cynnwys camau gweithredu ategol i gyflawni'r uchelgais hwn.

<u>Cyllid ar gyfer cynlluniau gweithredu</u>

Cyfanswm y gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol ar gyfer 2022-23 yw £8.904 miliwn. O'r swm hwn, mae £3.47 miliwn bellach wedi'i ddyrannu i Ymgysylltu Rhyngwladol ac mae £5.434 miliwn wedi'i ddyrannu i'n rhwydwaith swyddfeydd tramor. O'r £3.47 miliwn a ddyrannwyd i Ymgysylltu Rhyngwladol, caiff £2.09 miliwn ei ddyrannu i'n Cynlluniau Gweithredu. Caiff y gyllideb sy'n weddill, sef £1.38m, ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau trawsbynciol.

Mae'r gweithgareddau trawsbynciol hyn y mae angen £1.38m ar eu cyfer yn cefnogi ein hamcanion cysylltiadau rhyngwladol cyffredin nad ydynt yn gysylltiedig â Chynllun

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gweithredu penodol. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau i Gymru ac o Gymru, gweithgareddau cyfathrebu a'n mentrau a'n gweithgareddau blaenllaw sy'n berthnasol i'n holl Gynlluniau Gweithredu.

Er enghraifft, yn 2022-23, bydd y gyllideb hon yn cefnogi Fforwm Iwerddon/Cymru a gweithgareddau sy'n helpu i gyflwyno Datganiad Iwerddon/Cymru ar y Cyd, Cymru yng Nghanada 2022 a Chymru yn Ffrainc 2023. Bydd y gyllideb drawsbynciol hon hefyd yn cefnogi rôl a gweithgareddau Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar Ewrop.

Caiff y cynlluniau gweithredu rhyngwladol a'r gweithgareddau trawsbynciol i gyd eu cyllido o linell unigol yn y gyllideb - y gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol. Defnyddiwyd y term 'dibenion rheolaeth fewnol' i ddisgrifio'r broses o ddyrannu'r gyllideb, wedi'i phennu ar lefel cangen, er mwyn helpu i reoli'r gyllideb. Mae pob cynllun yn cael dyraniad cyllid meddal yn seiliedig ar flaengynllun gwaith. Bydd lefel y gweithgareddau yn erbyn pob cynllun yn amrywio o un flwyddyn i'r llall. Dyna pam nad oes modd creu proffil cyson ar gyfer y dyraniadau a'u bod yn wahanol o un flwyddyn i'r llall. Yn ogystal, mae gan rai ffrydiau gwaith rwymedigaethau cytundebol a fydd yn ysgogi gwariant ac yn arwain at newidiadau wrth ddyrannu'r gyllideb. Mae'r hyblygrwydd yn y gyllideb yn golygu y gellir ailddyrannu cyllid mewn ymateb i newidiadau annisgwyl yn amodau'r farchnad neu gyfleoedd sy'n codi yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld proffil cymharol debyg yn erbyn cynlluniau a gweithgareddau trawsbynciol ar gyfer 2023/24 a 2024/25.

Rhaglen Cymru o Blaid Affrica

Cynyddwyd y gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol er mwyn gallu rhoi'r Strategaeth Ryngwladol newydd ar waith. Ar y pryd, cytunodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol i drosglwyddo £350,000 y flwyddyn o'r gyllideb honno i mewn i gyllideb Datblygu Rhyngwladol ar wahân er mwyn helpu i weithredu elfennau Cymru ac Affrica'r Strategaeth Ryngwladol. Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol sy'n gyfrifol am raglen a chyllideb Cymru ac Affrica, gan gynnwys y swm o £350,000 a drosglwyddwyd. Caiff unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer prosiectau Cymru ac Affrica o'r gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol ei gymeradwyo gan y Prif Weinidog, ond y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol fyddai'n cymeradwyo'r prosiectau eu hunain ac a fyddai'n gyfrifol amdanynt. Mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn cael diweddariadau misol am Gymru ac Affrica.

Gwariant swyddfa rhyngwladol

Cyfanswm y gwariant ar gyfer y swyddfeydd rhyngwladol yw £5,434,000 a gaiff ei rannu'n gyllideb rhaglenni a chyllideb gweithgareddau. Mae'r gyllideb rhaglenni yn cynnwys £4,684,000 ac fe'i defnyddir i redeg y rhwydwaith tramor, gan gynnwys rhent, taliadau llwyfan FCDO, cyflogau staff a chostau uniongyrchol. Mae cyllideb o £750,000 yn cefnogi gweithgareddau ar draws y rhwydwaith swyddfeydd tramor.

Mae'r tîm Gweithrediadau Tramor yn rheoli'r gyllideb costau rhedeg rhaglenni ac mae Rheolwr Perfformiad a Chyflenwi'r Swyddfeydd Tramor yn rheoli'r gyllideb gweithgareddau. Mae gan y rhwydwaith swyddfeydd tramor gyllideb rhaglenni gyfun flynyddol o £4,684m a chyllideb gweithgareddau gyfun flynyddol o £750,000. Nid ydym yn pennu cyllidebau costau rhedeg rhaglenni ar gyfer pob swyddfa gan eu bod yn cael eu rheoli'n ganolog. Gall pob swyddfa wneud ceisiadau i'r gyllideb gweithgareddau ganolog.

Nodir cyllidebau terfynol, drafft a dangosol yn y tabl isod.

| | **Cyllideb derfynol 2021-22** | **Cyllideb ddrafft 2022-23** | **Cyllideb ddangosol 2023-24** | **Cyllideb ddangosol 2024-25** |
|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Rhaglenni | £4,684,000 | £4,684,000 | £4,684,000 | £4,684,000 |
| Cyllideb Gweithgareddau | £750,000 | £750,000 | £750,000 | £750,000 |
| Cyfanswm | £5,434,000 | £5,434,000 | £5,434,000 | £5,434,000 |

Weithiau, caiff y swyddfeydd gymorth drwy gyllid ychwanegol o'r gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol i roi rhaglenni gwaith untro neu flaenllaw ar waith. Er enghraifft, dyrannwyd £150,000 o gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol 2022-23 i gefnogi menter *Cymru yng Nghanada* a dyrannwyd £50,000 yn 2022-23 i fenter *Cymru yn Ffrainc*.

Nid yw'r swyddfeydd rhyngwladol yn cael unrhyw gyllid uniongyrchol gan Weinidogion nac adrannau eraill Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, weithiau bydd y swyddfeydd yn talu costau sy'n deillio o elfennau o daith fasnach neu weithgaredd buddsoddi. Mae amcanion y swyddfeydd yn cynnwys ymgymryd â gweithgareddau Masnach a Buddsoddi ac maent yn gweithio'n agos â'r timau Masnach a Buddsoddi yng Nghaerdydd gan roi cymorth ar lawr gwlad i'w rhaglen dramor.

<u>Ariannu gwaith cysylltiadau rhyngwladol mewn rhannau eraill o'r llywodraeth</u>

Mae'r tabl yn Atodiad A yn nodi'r rhaglenni rhyngwladol eraill a gaiff eu cyllido'n uniongyrchol gan adrannau eraill y mae ganddynt gyllideb benodedig ar gyfer gweithgareddau rhyngwladol.

Dyraniadau dangosol yw'r ffigurau yn y golofn cyllid gan fod pandemig COVID-19 wedi effeithio ar wariant ar draws yr holl raglenni hyn.

Ni fydd rhai adrannau yn dyrannu cyllidebau penodedig i'w gwaith ymgysylltu rhyngwladol gan fod gweithgareddau o'r fath wedi'u cynnwys yn gyffredinol o fewn amrywiaeth o'u swyddogaethau. Er enghraifft, mae cyllideb flynyddol Digwyddiadau Cymru, sef £34.718m, yn cefnogi portffolio cytbwys a chynaliadwy o ddigwyddiadau 'cartref' a rhyngwladol sy'n cael effeithiau economaidd ar Gymru drwy wariant ymwelwyr ac yn codi proffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol drwy sylw cysylltiedig yn y cyfryngau.

<u>Craffu ar Gysylltiadau Rhyngwladol yn rheolaidd</u>

Rwyf wedi ystyried cais y pwyllgor yn ofalus ac wedi penderfynu mai cynnal sesiwn benodedig er mwyn craffu ar gysylltiadau rhyngwladol yn ystod un o ymddangosiadau craffu rheolaidd y Prif Weinidog yw'r dull gweithredu mwyaf priodol.

Nid wyf yn ymwybodol fod unrhyw Brif Weinidog blaenorol wedi mynychu Pwyllgorau i drafod cyfrifoldebau portffolio unigol, ac felly rwyf o'r farn bod trefniadau craffu'r Prif Weinidog bob hanner tymor yn ddigonol.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**

# Eitem 8.4

From: Caitriona Noonan <noonanc@cardiff.ac.uk>

To: Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee | Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol <SeneddCulture@senedd.wales>

Dear Chair and committee

At a meeting on the 13th October, as part of a panel I gave evidence on the subject of the future provision and funding of PSB. Over the course of that evidence we directed the committee to the Young Audience Content Fund – a fund set up several years ago to support the provision of content specifically for children and young people. Over the course of this fund, records suggest investment went to support Welsh language content or Wales-based indies. For instance, in the details about funding in 2019, Person/a (Cwmni Da Cyf) and Y Gyfrinach (Boom Cymru TV) were both awarded investment (Further research is needed about the proportionality of this relative to the overall investments made by the fund across the UK).

However, I wish to draw the committee's attention to the closure of that fund, announced here: https://www.bfi.org.uk/get-funding-support/create-films-tv-or-new-formats-storytelling/young-audiences-content-fund/closure-young-audiences-content-fund

I also wish to advise that the decision appears to have taken place without the "full evaluation" of the scheme which the government promised. Currently the Children's Media Foundation is gathering signatories as part of a petition on that issue: https://www.thechildrensmediafoundation.org/the-young-audiences-content-fund-campaign#signatures (full disclosure, I have signed that letter).

Setting aside arguments for the funds continuance, I do believe it is important that the process of evaluating such public interventions are appropriate, transparent and timely. Without such evaluation, it is difficult to deliver effective evidence-based policies. The question of appropriate models for funding PSBs are subject to much discussion and debate both within and outside policy circles in Wales, the UK and internationally. So it seems counterproductive to not use this opportunity to assess one apparently novel mode of support and to see whether this might be incorporated in the future.

It might be that the fund didn't achieve its stated aims, in which case specific lessons must be learnt and shared widely to enable greater precision regarding public funding in the future. If

the fund has been successful in its terms, then greater justification is needed regarding its closure, especially given the challenges facing public service broadcasting, the provision of domestic children's' television and Welsh language content within that.

These challenges were aptly framed in the committee's letter on the 22nd January to the Secretary of State for Digital, Culture, Media and Sport regarding the 'serious threat to the future of public service broadcasting in both English and Welsh languages in Wales". The closure of the YACF, without due regard to its evaluation, is a further element in that threat to the sustainability of diverse and inclusive Welsh and English services for all, especially our young citizens.

Last year my colleagues Laura Sinclair and Dr Cindy Carter were commissioned by the BFI to conduct research on the children who participated in the See Yourself on Screen Challenge (which is also run by the BFI alongside YACF) and they concluded that the role TV shows play in the lives of young audiences in the UK remains vital. The press release attached, published by the BFI, points specifically to the success of the YACF for minority content: https://www.bfi.org.uk/news/young-people-uk-television-report

I thank the committee for its time in considering this matter.

Kind regards

Caitriona

Dr Caitriona Noonan

Senior Lecturer in Media and Communications

Cardiff University, School of Journalism, Media and Culture

Two Central Square

Central Square

CARDIFF

CF10 1FS

Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant, Prifysgol Caerdydd

Prifysgol Caerdydd

Dau Sgwâr Canolog

Sgwâr Canolog

CAERDYDD

Book with Prof Ruth McElroy: *Producing British Television Drama: Local Production in a Global Era* 2019, Palgrave Macmillan

Research Project: https://smallnationsscreen.org/